



Ein Treftadaeth
Our Heritage



DILYNWCH Y STORI: Darganfyddwch fwy am y diwydiant llechi yng ngogledd Cymru drwy ymweld â **Chastell Penrhyn** ychydig y tu allan i Fangor, castell neo-Normanadd adeiladwyd yn gynnar yn y 19eg ganrif gan yr Arglwydd Penrhyn o elw llechi.

Penrhyn – Pendefigion a Phier

Mynd ar gefn beic o Fangor ar hyd y Llwybr Llechi

Hyd: 2-3 awr

Cyn i chi ddechrau reidio'ch beic, ymwelwch ag Arddangosfa Ein Treftadaeth yn **Amgueddfa ac Oriel Gwynedd (1)** ac wedyn ewch am gipolwg i **Gadeirlan Sant Deiniol (2)**, y gadeirlan gynharaf i'w sefydlu ym Mhrydain sy'n dyddio'n ôl i tua 525 OC. Adferwyd yr adeilad presennol gan George Gilbert Scott yn y 19eg ganrif. Sylwer: mae rhestl feics gyferbyn â mynedfa'r gadeirlan ar y Stryd Fawr.

O'r fan hon reidiwch i fyny 'r allt i **Brifysgol Bangor (3)** a sefydlwyd gan gyfraniadau'r bobl leol gan gynnwys y chwarelwyr, ac rydym ni ar fin archwilio eu taith lechi. Anelwch i gyfeiriad y gogledd ar hyd Lôn Adda heibio **Pier Bangor (4)**. Cafodd ei adeiladu yn 1896, a dyma'r pier hwyaf sydd wedi goroesi yng Nghymru; fe'i adferwyd a chafodd ei ailagor yn 1987. Sylwer: Ni chaniateir beics ar y pier.

O'r pier dilynwch Lwybr 5 Sustrans i **Abercegin (5)** a adeiladwyd i'r arglwyddi oedd yn berchnogion Chwarel y Penrhyn. Roedd llechi o'u chwarel yn cael eu cludo mewn llongau dros y byd i gyd o'r fan hon yn y 19eg ganrif.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gweld y bont hynod **Traphont Cegin (6)** un o'r pontydd rheilffordd aml fwa hynaf sy'n bodoli o hyd yn y byd, a ffurfiodd ran o lwybr rheilffordd 1801 oedd yn dod â llechi o'r chwarel i'r porthladd. Daliwch ati i feicio nes i chi gyrraedd y **Felin Fawr (7)**. Y rhaeadr yn y lleoliad hwn oedd yn pweru'r olwynion oedd yn gyrru'r llifiau mecanyddol oedd yn cynhyrchu clytiau llechi.

Nesaf byddwch yn reidio heibio **Chwarel y Penrhyn (8)**, oedd ar un adeg yn un o'r chwareli mwya'r byd ac mae'n dal i weithio heddiw. Yn sgrialu mynd uwch eich pen efallai y gwelwch rhai sy'n chwilio am wefr ar y weiren sip hwyaf yn Ewrop.

Gallwch ymestyn eich taith ar gefn beic drwy ddilyn ffordd dyrpeg yr Arglwydd Penrhyn o'r 18fed ganrif i Lyn Ogwen, sef 'Ffordd y Lord' a mwynhau'r golygfeydd o ffordd Thomas Telford ar ochr arall y dyffryn.



Castell Penrhyn © Cyngor Gwynedd



Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100023387